Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Y Cod Allanoli Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Gweithlu

Cyhoeddwyd: Mawrth 2026

Caffael Cyhoeddus
NOSC 2026 Rhif 60

OGL © Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG54333, ISBN digidol 978-1-83745-317-7
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# 1. Cyflwyniad

Mae'r Cod Allanoli Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Gweithlu ('**Cod y Gweithlu**') hwn yn cael ei baratoi a'i gyhoeddi o dan adran 32 o Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 ('y **Ddeddf**').

Pwrpas Cod y Gweithlu yw cynnal neu wella ansawdd gwasanaethau cyhoeddus neu swyddogaethau eraill sy'n cael eu hallanoli gan awdurdodau contractio yng Nghymru. Mae Cod y Gweithlu yn ymdrin â materion cyflogaeth a phensiynau sy'n gysylltiedig ag allanoli contractau gwasanaethau yng Nghymru.

O dan y Ddeddf, rhaid i Awdurdodau Contractio roi sylw i God y Gweithlu, ystyried a ddylai unrhyw Gontract Allanoli Gwasanaethau gynnwys y Cymalau Gweithlu Cyhoeddus Cymdeithasol a chymryd pob cam rhesymol i wneud y canlynol:

(a) Cynnwys y Cymalau Gweithlu Cyhoeddus Cymdeithasol y mae'n credu y dylid eu cynnwys mewn unrhyw Gontract Allanoli Gwasanaeth;

(b) Sicrhau y gellir gweithredu'r Cymalau Gweithlu Cyhoeddus Cymdeithasol yn y contract; ac

(c) Wrth reoli'r contract, sicrhau bod y Cymalau Gweithlu Cyhoeddus Cymdeithasol yn cael eu gweithredu.

Daw Cod y Gweithlu i rym ar **25 Mawrth 2026**. O'r dyddiad hwnnw ymlaen, bydd Cod y Gweithlu yn disodli'r Cod Ymarfer ar Faterion Gweithlu 2014 ac unrhyw godau gweithlu eraill a gyhoeddwyd yn flaenorol (y '**Cod Blaenorol**') ac eithrio pan gafodd y gwasanaeth cyhoeddus neu'r swyddogaeth gyhoeddus ei allanoli neu ei hallanoli yn wreiddiol o dan God Blaenorol.

Bydd angen o hyd i Awdurdodau Contractio ddehongli deddfwriaeth berthnasol a cheisio cyngor cyfreithiol yn ôl yr angen. Bydd angen i Awdurdodau Contractio benderfynu, yng ngoleuni eu cyngor cyfreithiol eu hunain, a ddylid dilyn egwyddorion Cod y Gweithlu ac a ddylid cynnwys y Cymalau Gweithlu Cyhoeddus Cymdeithasol mewn unrhyw Gontract Allanoli Gwasanaethau.

# 2. Cwmpas

Mae'r Awdurdodau Contractio sy'n ddarostyngedig i ddarpariaethau Cod y Gweithlu wedi'u nodi yn Atodlen 1 i Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023.

Felly, mae'r egwyddorion a amlinellir yng Nghod y Gweithlu hwn yn gymwys i'r amgylchiadau canlynol, oni bai fod rhesymau gwirioneddol eithriadol na ddylent fod yn gymwys:

a) Pan fydd Awdurdod Contractio yn allanoli gwasanaethau neu swyddogaethau cyhoeddus i endid yn y sector preifat neu i sefydliad yn y sector gwirfoddol (hynny yw, **contractio allan**);

b) Mewn perthynas ag Allanoli Cenhedlaeth Ddilynol, ac unrhyw allanoli dilynol, sy'n arwain at Gontractwr Dilynol yn ymgymryd â'r gwasanaeth cyhoeddus neu'r swyddogaeth gyhoeddus (pan gafodd staff eu trosglwyddo o'r Awdurdod Contractio pan gafodd y gwasanaeth cyhoeddus neu'r swyddogaeth gyhoeddus ei allanoli neu ei hallanoli am y tro cyntaf) (h.y. **aildendro**);

c) Pan fydd gwasanaeth neu swyddogaeth gyhoeddus sydd wedi cael ei allanoli neu ei hallanoli o dan Gontract Allanoli Gwasanaethau ar neu ar ôl y dyddiad y daw Cod y Gweithlu hwn i rym, yn cael ei ddwyn yn ôl i Awdurdod Contractio (pan oedd y contract pan gafodd ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn golygu trosglwyddo staff o Awdurdod Contractio) (h.y. **mewnoli**).

Dyma resymau gwirioneddol eithriadol pan na ddylai egwyddorion Cod y Gweithlu fod yn gymwys a phan na fydd staff yn trosglwyddo:

a) pan fo contract ar gyfer darparu nwyddau yn unig neu nwyddau a gwasanaethau, ond bod darparu gwasanaethau yn ategol at ddibenion darparu'r nwyddau; neu

b) pan fo'r awdurdod contractio yn prynu gwasanaethau untro am gyfnod byr.

Yn y cam cynharaf posibl yn yr ymarfer allanoli, dylai Awdurdodau Contractio benderfynu a yw egwyddorion Cod y Gweithlu yn gymwys, ac a ddylid cynnwys y Cymalau Gweithlu Cyhoeddus Cymdeithasol yn y Contract Allanoli Gwasanaethau. Wrth wneud hynny, cyfeirir Awdurdodau Contractio perthnasol at eu dyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol[1] ac yn gyffredinol, ar gyfer unrhyw Awdurdod Contractio nad yw'n dod o dan y ddyletswydd benodol honno, ystyrir bod ymgynghori ag Undebau Llafur cydnabyddedig pan fydd cynigion ar gam ffurfiannol yn arfer gorau.

## 3. Egwyddorion

Mae'r Cod y Gweithlu hwn yn nodi'r egwyddorion y mae'n rhaid i Awdurdodau Contractio eu hystyried wrth ystyried allanoli[2] gwasanaethau neu swyddogaethau cyhoeddus yng Nghymru.

## Trosglwyddo Staff

[1] Adran 16 o Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023

[2] Defnyddir y term allanoli, ond gall cwmpas yr amgylchiadau lle mae Cod y Gweithlu yn gymwys gynnwys contractau allanoli a mewnoli ail genhedlaeth a chenhedlaeth ddilynol. Gweler adran 2.

Bydd egwyddorion Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2008 yn gymwys pan gaiff gwasanaethau neu swyddogaethau cyhoeddus eu hallanoli.

Un o egwyddorion Cod y Gweithlu yw na ddylai staff fod o dan anfantais o ganlyniad i drosglwyddo eu cyflogaeth mewn cysylltiad ag allanoli gwasanaethau neu swyddogaethau cyhoeddus.

Mae TUPE yn diogelu telerau ac amodau cyflogaeth staff pan fydd eu cyflogaeth yn cael ei throsglwyddo o un cyflogwr i un arall ac yn barhaus. Mae TUPE hefyd yn gosod rhwymedigaethau i hysbysu ac (mewn amgylchiadau penodol) ymgynghori â Staff sy'n Trosglwyddo ac unrhyw Undeb Llafur[3] cydnabyddedig ynghylch trosglwyddo cyflogaeth, ei oblygiadau ac unrhyw weithredoedd, newidiadau neu gamau y mae'r cyflogwr newydd yn eu rhagweld neu'n bwriadu eu cymryd mewn perthynas â'r Staff sy'n Trosglwyddo. Bydd Awdurdodau Contractio (a Chontractwyr mewn proses aildendro) hefyd o dan rwymedigaeth i ddarparu gwybodaeth benodol am y Staff sy'n Trosglwyddo.

Bydd TUPE fel arfer yn gymwys o ran trosglwyddo staff mewn unrhyw un neu ragor o'r amgylchiadau a amlinellir yn adran 2.

Os nad yw TUPE yn gymwys mewn termau cyfreithiol caeth i un o'r amgylchiadau a amlinellir yn adran 2 (er enghraifft, pan nad oes newid cyflogwr neu pan nad yw Staff sy'n Trosglwyddo yn cael eu hystyried yn *"grŵp trefnedig"* y byddai TUPE yn gymwys iddo), bydd egwyddorion TUPE yn gymwys serch hynny i sicrhau nad yw staff o dan anfantais oni bai fod rhesymau gwirioneddol eithriadol pam na ddylent fod yn gymwys (fel yr amlinellir yn adran 2).

Dylai Awdurdodau Contractio ddatgan cyn gynted â phosibl yn yr ymarfer allanoli y bydd staff yn trosglwyddo ac y dylai TUPE, neu egwyddorion TUPE o dan God y Gweithlu, fod yn gymwys.

<u>Aildendro</u>

Os bydd Awdurdod Contractio yn aildendro Contract Allanoli Gwasanaethau, oni bai fod rhesymau gwirioneddol eithriadol dros beidio â gwneud hynny fel yr amlinellir yn adran 2, dylai staff sy'n gweithio ar y Contract Allanoli Gwasanaethau sy'n cael ei aildendro drosglwyddo a dylai TUPE, neu egwyddorion TUPE, fod yn gymwys.

<u>Mewnoli</u>

Os bydd Awdurdod Contractio yn penderfynu y dylid dod â gwasanaeth cyhoeddus neu swyddogaeth gyhoeddus sydd wedi cael ei allanoli neu ei hallanoli yn ôl i'r Awdurdod Contractio, oni bai fod rhesymau gwirioneddol eithriadol dros beidio â gwneud hynny fel yr amlinellir yn adran 2, dylai staff sy'n gweithio ar y Contract Allanoli Gwasanaethau drosglwyddo a dylai TUPE, neu egwyddorion TUPE, fod yn gymwys.

[3] Os nad oes Undeb Llafur yn cael ei gydnabod, dylid ymgynghori â chynrychiolwyr gweithwyr.

## Pensiynau

Bydd darpariaeth pensiwn staff, y mae eu cyflogaeth yn trosglwyddo o ganlyniad i Awdurdod Contractio'n allanoli gwasanaethau neu swyddogaethau cyhoeddus, yn cael ei diogelu.

Un o egwyddorion Cod y Gweithlu yw y bydd darpariaeth pensiwn staff yn cael ei diogelu (fel yr amlinellir isod) os bydd eu cyflogaeth yn trosglwyddo yn un o'r amgylchiadau a amlinellir yn adran 2 uchod.

Nid yw TUPE yn diogelu mynediad staff at eu trefniadau pensiwn presennol. Fodd bynnag, bydd rhai darpariaethau eraill yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Contractio sicrhau bod darpariaeth pensiwn staff yn cael ei diogelu. Sef:

a) **Bargen Deg 2013** sy'n mynnu bod yr holl staff sy'n aelodau o gynllun pensiwn sector cyhoeddus sy'n cael eu trosglwyddo'n orfodol o'r sector cyhoeddus, ac sy'n parhau i gael eu cyflogi'n barhaus i ddarparu'r gwasanaeth sydd wedi'i allanoli neu'r swyddogaeth sydd wedi'i hallanoli, **yn parhau i fod yn gymwys i fod yn aelodau o'u cynllun pensiwn sector cyhoeddus.** Dylai staff a drosglwyddir hefyd barhau i fod yn gymwys i fod yn aelodau o gynllun pensiwn y sector cyhoeddus yn dilyn unrhyw Allanoli Cenhedlaeth Ddilynol. Nid yw Bargen Deg 2013 yn gymwys i drosglwyddiadau awdurdodau lleol.

b) **Cyfarwyddydau Trosglwyddo Staff Awdurdodau Cymru (Pensiynau) 2022** sy'n gymwys i awdurdodau lleol, cynghorau cymuned, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru, ac sy'n darparu i Staff sy'n Trosglwyddo gael diogeliad pensiwn sy'n darparu ar gyfer buddion pensiwn sydd **yr un fath neu'n cymharu'n fras ag, neu'n well nag**, y rhai a oedd gan y staff sy'n trosglwyddo gyda'r Awdurdod Contractio perthnasol. Rhaid i'r Awdurdod Contractio perthnasol hefyd sicrhau bod y contract ar unrhyw Allanoli Cenhedlaeth Ddilynol yn darparu diogeliad pensiwn fel yr amlinellir mewn perthynas ag unrhyw gyflogeion a oedd gynt yn gyflogeion i'r Awdurdod Contractio perthnasol.

Dylai Awdurdodau Contractio sicrhau bod darpariaeth pensiwn y Staff sy'n Trosglwyddo yn cael ei diogelu drwy gydol unrhyw Gontract Allanoli Gwasanaethau ac mewn perthynas ag unrhyw Allanoli Cenhedlaeth Ddilynol fel sy'n ofynnol gan y Fargen Deg a'r Cyfarwyddydau Pensiynau, mewn perthynas ag unrhyw un o'r amgylchiadau a amlinellir yn adran 2 uchod.

Os nad yw TUPE yn berthnasol mewn termau cyfreithiol caeth, bydd egwyddorion y Fargen Deg a'r Cyfarwyddydau Pensiynau, serch hynny, yn gymwys i sicrhau nad yw staff o dan anfantais.

## Staff Eraill

Ni fydd telerau ac amodau Staff Eraill yn llai ffafriol yn gyffredinol na thelerau ac amodau'r staff sy'n trosglwyddo a bydd y trefniadau pensiwn a gynigir i Staff Eraill yn rhesymol.

Telerau ac amodau

Un o egwyddorion Cod y Gweithlu yw, pan fydd staff presennol neu weithwyr newydd yn gweithio ochr yn ochr â Staff sydd wedi Trosglwyddo sy'n ymwneud â darparu'r gwasanaethau neu ymgymryd â'r swyddogaethau sydd wedi'u hallanoli, y byddant yn cael eu cyflogi ar delerau ac amodau nad ydynt yn llai ffafriol na'r Staff sydd wedi Trosglwyddo.

Er mwyn i delerau ac amodau Staff Eraill beidio â chael eu hystyried yn llai ffafriol yn gyffredinol, rhaid i'r telerau ac amodau a gynigir i Staff Eraill fod yn deg ac yn rhesymol ac ni ddylai'r pecyn o delerau ac amodau, o'i ystyried yn ei gyfanrwydd, fod yn llai ffafriol.

Gall hyn olygu bod telerau ac amodau Staff sy'n Trosglwyddo a Staff Eraill yn wahanol mewn rhai ffyrdd. Nid yw'r egwyddor hon yn ei gwneud yn ofynnol i delerau ac amodau Staff sy'n Trosglwyddo a Staff Eraill fod yn union yr un fath, ond mae'n annhebygol y byddant yn gallu bod yn sylweddol wahanol. Y nod yw rhoi rhywfaint o hyblygrwydd i Gontractwyr a Chontractau Dilynol wrth gynllunio'r gwaith o ddarparu'r gwasanaethau neu'r swyddogaethau.

> Er enghraifft, gall yr oriau gwaith neu'r trefniadau sifft ar gyfer Staff sy'n Trosglwyddo a Staff Eraill fod yn wahanol, ond os yw'r trefniant hwn yn llai ffafriol i Staff Eraill, gellir rhoi hyblygrwydd ychwanegol iddynt neu gynnig amser yn eu lle i sicrhau nad yw'r pecyn termau yn ei gyfanrwydd yn llai ffafriol.

Nod yr egwyddor hon yw sicrhau nad oes senario'n codi pan fydd Staff sy'n Trosglwyddo a Staff Eraill sy'n gweithio ar Gontract Allanoli Gwasanaethau yn cael eu cyflogi ar delerau ac amodau gwahanol iawn, a bod telerau ac amodau Staff Eraill, ar y cyfan, yn llai ffafriol.

Dylid gwerthuso'r pecyn o delerau ac amodau sydd i'w cynnig i Staff Eraill yn ei gyfanrwydd a dylid ymgynghori ag unrhyw Undeb Llafur cydnabyddedig ynghylch y pecyn arfaethedig.

Pensiwn

Mae hefyd yn un o egwyddorion Cod y Gweithlu y bydd Staff Eraill yn cael cynnig trefniadau pensiwn sy'n rhesymol. Er mwyn i drefniadau pensiwn fod yn rhesymol, dylid cynnig un o'r opsiynau canlynol i Staff Eraill:

a) Pan fo'r Contractwr neu'r Contractwr Dilynol â statws corff derbyniedig o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol;

b) Pan fo gan y Contractwr neu Gontractwr Dilynol gytundeb cyfranogiad gyda chynllun pensiwn gwasanaethau cyhoeddus perthnasol fel y nodir yn y Fargen Deg;

c) Aelodaeth o gynllun pensiwn sy'n bodloni gofynion Deddf Pensiynau 2008 (ni waeth a yw Deddf Pensiynau 2008 yn ei gwneud yn ofynnol i'r aelod o Staff Eraill gael cynnig aelodaeth ai peidio).

## Is-gontractau

Pan fydd yr Awdurdod Contractio yn cynnwys y Cymalau Gweithlu Cyhoeddus Cymdeithasol mewn Contract Allanoli Gwasanaethau, rhaid iddo gymryd camau rhesymol i sicrhau bod y Cymalau'n cael eu cynnwys mewn unrhyw is-gontract rhwng Contractwr ac Is-gontractwr i ddarparu'r gwasanaethau (neu ran o'r gwasanaethau), neu i ymgymryd â'r swyddogaethau (neu ran o'r swyddogaethau) sy'n cael eu trosglwyddo o dan y Contract Allanoli Gwasanaethau.

Un o egwyddorion Cod y Gweithlu hwn ac un o ofynion y Ddeddf yw bod yn rhaid i'r Cymalau Gweithlu Cyhoeddus Cymdeithasol fod yn gymwys hefyd mewn perthynas ag unrhyw is-gontract a wneir i ddarparu'r gwasanaethau neu'r swyddogaethau (neu ran ohonynt). Nod yr egwyddor hon yw atal unrhyw Gontractwr neu Gontractwr Dilynol rhag osgoi egwyddorion Cod y Gweithlu hwn drwy drefniant is-gontractio.

Mae'r camau rhesymol y dylai'r Awdurdodau Contractio eu cymryd yn cynnwys:

a) Sicrhau bod y Cymalau Gweithlu Cyhoeddus Cymdeithasol[4] yn cael eu cynnwys mewn unrhyw is-gontract a wneir gydag Is-gontractwr;

b) Sicrhau ei fod yn gallu gorfodi'r rhwymedigaethau o dan y Cymalau Gweithlu Cyhoeddus Cymdeithasol sydd wedi'u cynnwys mewn unrhyw is-gontract;

c) Ei gwneud yn ofynnol i Gontractwyr ac Is-gontractwyr gael caniatâd yr Awdurdod Contractio cyn ymrwymo i is-gontract;

d) Mae unrhyw ganiatâd a roddir gan yr Awdurdod Contractio i'r Contractwr, y Contractwr Dilynol neu'r Is-gontractwr i is-gontractio yn amodol ar gynnwys y Cymalau Gweithlu Cyhoeddus Cymdeithasol (neu gymalau sydd â'r un effaith neu'r un effaith yn sylweddol) mewn unrhyw is-gontract;

e) Ei gwneud yn ofynnol i'r Contractwr (neu Gontractwr Dilynol) fonitro gweithrediad y rhwymedigaethau o dan y Cymalau Gweithlu Cyhoeddus Cymdeithasol (neu gymalau sydd â'r un effaith neu'r un effaith yn sylweddol) mewn perthynas ag unrhyw is-gontract;

[4] neu gymalau sydd â'r un effaith neu'r un effaith yn sylweddol ag y darperir ar ei chyfer o dan adran 34 o'r Ddeddf.

f) Ei gwneud yn ofynnol i unrhyw Gontractwr, Contractwr Dilynol neu Is-gontractwr roi gwybod i'r Awdurdod Contractio os yw'n bwriadu ymrwymo i is-gontract nad yw'n cynnwys y Cymalau Gweithlu Cyhoeddus Cymdeithasol (neu gymalau sydd â'r un effaith neu'r un effaith yn sylweddol).

### Monitro gweithrediad

Dylai'r Awdurdod Contractio sicrhau bod proses ar waith i sicrhau bod y rhwymedigaethau yn y Cymalau Gweithlu Cyhoeddus Cymdeithasol yn cael eu gweithredu gan y Contractwr neu unrhyw Gontractwr Dilynol neu Is-gontractwr.

Un o egwyddorion Cod y Gweithlu yw bod yr Awdurdod Contractio yn cymryd camau i sicrhau bod unrhyw Gontractwr neu Is-gontractwr yn cydymffurfio â rhwymedigaethau Cod y Gweithlu hwn a'r Cymalau Gweithlu Cyhoeddus Cymdeithasol.

Dylai'r Awdurdod Contractio bod ei gwneud yn ofynnol i unrhyw Gontractwr neu Is-gontractwr ddarparu, ar ffurf ddienw, wybodaeth flynyddol mewn perthynas â'r canlynol:

a) Telerau ac amodau Staff sy'n Trosglwyddo;

b) Telerau ac amodau Staff Eraill;

c) Manylion trefniadau pensiwn Staff sy'n Trosglwyddo; a

d) Manylion trefniadau pensiwn Staff Eraill.

## 4. Cymalau Gweithlu Cyhoeddus Cymdeithasol

Dylai Awdurdod Contractio gynnwys mewn unrhyw Gontract Allanoli Gwasanaethau y Cymalau Gweithlu Cyhoeddus Cymdeithasol a nodir yn God y Gweithlu hwn.

Nid yw cynnwys y Cymalau Gweithlu Cyhoeddus Cymdeithasol mewn unrhyw Gontract Allanoli Gwasanaethau yn atal yr Awdurdod Contractio a'r Contractwr neu'r Is-gontractwr Dilynol rhag cytuno ar ddarpariaethau ychwanegol o ran TUPE, Pensiynau neu unrhyw fater perthnasol arall fel sy'n gymwys i'w cynnwys mewn unrhyw Gontract Allanoli Gwasanaethau.

## 5. Ymgynghori ag Undeb Llafur a chydnabyddiaeth

Pan fydd staff yn trosglwyddo o ganlyniad i Gontract Allanoli Gwasanaethau, dylai Awdurdodau Contractio ddilyn gofynion TUPE a hysbysu Undebau Llafur cydnabyddedig (ac ymgynghori â hwy lle bo angen) cyn trosglwyddo staff o dan Gontract Allanoli Gwasanaethau.

Dylai undeb llafur annibynnol a gydnabuwyd gan yr Awdurdod Contractio mewn perthynas â'r Staff sy'n Trosglwyddo gael ei gydnabod gan y Contractwr ac unrhyw Gontractwr Dilynol i'r un graddau o dan egwyddorion TUPE[5].

Dylai unrhyw becyn o delerau ac amodau sydd i'w cynnig i Staff Eraill fod yn destun ymgynghoriad ag unrhyw Undeb Llafur cydnabyddedig.

## 6. Mewnoli

Mewn perthynas ag unrhyw ymarfer aildendro, dylai Awdurdodau Contractio archwilio'r potensial i fewnoli'r gwasanaeth cyhoeddus neu'r swyddogaeth gyhoeddus. **Pecyn cymorth ar gyfer mewnoli yng Nghymru | LLYW.CYMRU**

Dylai Awdurdodau Contractio fod yn ymwybodol y gallai telerau ac amodau unrhyw staff sydd wedi cael eu mewnoli fod yn llai ffafriol na thelerau ac amodau gweithlu presennol yr Awdurdod Contractio. Felly, dylid cymryd cyngor mewn perthynas ag unrhyw risg bosibl o dan ddarpariaethau cyflog cyfartal neu wahaniaethu Deddf Cydraddoldeb 2010, sy'n deillio o unrhyw wahaniaeth o'r fath.

## 7. Safonau'r Gymraeg

Pan fo'n ofynnol i Gontractwr gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg sy'n gymwys i Awdurdod Contractio, bydd hyn yn cynnwys unrhyw Safon sy'n gymwys i'r gweithle neu'r gweithlu.

## 8. Diwygio Cod y Gweithlu

Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio Cod y Gweithlu a byddant yn cyhoeddi unrhyw ddiwygiad.

[5] Rheoliad 6(2) o Reoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006

# Cymalau Gweithlu Cyhoeddus Cymdeithasol

Dyma’r Cymalau Gweithlu Cyhoeddus Cymdeithasol i’w cynnwys mewn Contractau Allanoli Gwasanaethau:

**Atodlen [ ]**

**Cymalau Gweithlu Cyhoeddus Cymdeithasol**

## 1. Diffiniadau

1.1 Yn yr Atodlen hon, mae’r diffiniadau canlynol yn gymwys:

| | |
|---|---|
| Allanoli Cenhedlaeth Ddilynol | Mae hyn yn golygu pan na fydd y gwasanaeth cyhoeddus neu’r swyddogaeth gyhoeddus yn cael ei gyflawni neu ei chyflawni mwyach gan Gontractwr ar ran yr awdurdod contractio a’i fod yn cael ei gyflawni neu ei chyflawni yn lle hynny gan Gontractwr Dilynol. |
| Awdurdod contractio | Mae’n golygu awdurdod a restrir yn Atodlen 1 i Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023. |
| Bargen Deg | Mae’n golygu A Fair Deal for Staff Pensions: staff transfer from central government (Hydref 2013). |
| Cod y Gweithlu | Mae’n golygu’r Cod Allanoli Gwasanaethau Cyhoeddus a’r Gweithlu sydd wedi’i baratoi a’i gyhoeddi o dan adran 32 o Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023. |
| Contract Allanoli Gwasanaethau | Mae’n golygu contract lle mae:<br><br>(a) gofyniad i ddarparu gwasanaeth cyhoeddus a ddarperir gan awdurdod contractio, neu a ddarparwyd yn flaenorol ganddo, yn cael ei drosglwyddo i berson arall, neu |

| | |
|---|---|
| | (b) unigolyn arall yn cytuno i ymgymryd ag unrhyw swyddogaeth arall a gyflawnir gan awdurdod contractio, neu a gyflawnwyd yn flaenorol ganddo;<br><br>ac mae “allanoli” i’w ddehongli yn unol â hynny. |
| Contractwr | Y sawl y trosglwyddir iddo y gofyniad i ddarparu gwasanaeth cyhoeddus a ddarperir gan awdurdod contractio, neu a ddarparwyd yn flaenorol ganddo, o dan y Contract Allanoli Gwasanaethau. |
| Contractwr Dilynol | Mae’n golygu’r sawl y trosglwyddir iddo y gofyniad i ddarparu gwasanaeth cyhoeddus a ddarperir gan awdurdod contractio, neu a ddarparwyd yn flaenorol ganddo, pan na fydd y swyddogaeth yn cael ei chyflawni mwyach gan y Contractwr. |
| Cyfarwyddydau Pensiynau | Mae’n golygu Cyfarwyddydau Trosglwyddo Staff Awdurdodau Cymru (Pensiynau) 2022. |
| Cymalau gweithlu cymdeithasol | Mae’n golygu’r cymalau sydd wedi’u cynnwys yn Atodiad 1 Cod y Gweithlu hwn. |
| Cynllun Gwaddol | Mae’n golygu’r cynllun pensiwn y mae Staff sy’n Trosglwyddo yn aelodau ohono neu’n gymwys i fod yn aelodau ohono cyn Trosglwyddo. |
| Cytundeb Cyfranogiad | Mae’n golygu cytundeb sy’n ofynnol dan y darpariaethau sy’n llywodraethu unrhyw Gynllun Gwaddol i oruchwylio’r gwaith o weinyddu’r holl gynllun neu ran o gynllun o'r fath. |
| Cytundeb Derbyn | Mae’n golygu yr ystyr a roddir i “admission agreement” o dan |

| | |
|---|---|
| | Atodlen 1 i Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013. |
| Darpariaethau Pensiwn | Mae'n golygu'r Fargen Deg a'r Cyfarwyddydau Pensiynau. |
| Deddf | Mae'n golygu Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023. |
| Is-gontractwr | Gweithredwr economaidd y mae naill ai Contractwr, Contractwr Dilynol neu Is-gontractwr yn ymrwymo i is-gontract ag ef i ddarparu'r gwasanaethau (neu ran o'r gwasanaethau), neu i ymgymryd â'r swyddogaethau (neu ran o'r swyddogaethau) sy'n cael eu trosglwyddo o dan y Contract Allanoli Gwasanaethau. |
| Staff Eraill | Mae'n golygu aelodau eraill o staff y Contractwr neu Gontractwr Dilynol sy'n ymwneud â darparu'r gwasanaethau neu ymgymryd â'r swyddogaethau sydd wedi cael eu hallanoli. Gall hyn gynnwys staff presennol sydd wedi'u dyrannu i'r swyddogaeth neu'r gwasanaethau wedi'u hallanoli a gweithwyr newydd sy'n cael eu cyflogi. |
| Staff wedi'u Trosglwyddo/Staff sy'n Trosglwyddo | Mae'n golygu staff y mae eu cyflogaeth yn trosglwyddo o ganlyniad i awdurdod contractio'n allanoli gwasanaethau neu swyddogaethau cyhoeddus, neu unrhyw Allanoli Cenhedlaeth Ddilynol yn dilyn y contract hwn. |
| Trosglwyddo | Mae'n golygu allanoli gwasanaethau neu swyddogaethau cyhoeddus ymhellach neu unrhyw Allanoli Cenhedlaeth Ddilynol yn dilyn y contract hwn. |

| | |
|---|---|
| TUPE | Mae'n golygu Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 |

## 2. Cydymffurfio â Chod y Gweithlu

2.1 Bydd y partïon yn rhoi sylw i God y Gweithlu ac yn cymhwyso egwyddorion Cod y Gweithlu.

## 3. Trosglwyddo Staff

3.1 Mae'r partïon yn cytuno y dylai TUPE fod yn gymwys, neu os nad yw TUPE yn gymwys, dylai egwyddorion TUPE fod yn gymwys yn unol â Chod y Gweithlu.

3.2 Mae'r partïon yn cytuno y bydd contractau cyflogaeth unrhyw Staff sy'n Trosglwyddo, a fyddai fel arall yn cael eu terfynu drwy drosglwyddo gwasanaethau neu swyddogaethau o dan y contract hwn, yn cael effaith ar ôl y trosglwyddiad fel pe baent wedi cael eu gwneud yn wreiddiol rhwng y Staff sy'n Trosglwyddo a'r Contractwr (neu unrhyw Is-gontractwr) boed hynny o dan TUPE neu egwyddorion Cod y Gweithlu.

3.3 Bydd y Contractwr (a bydd yn sicrhau y bydd unrhyw Is-gontractwr) yn sicrhau'r canlynol:

(a) bod y mecanwaith cyfreithiol priodol i roi effaith i drosglwyddo cyflogaeth unrhyw Staff sy'n Trosglwyddo, lle nad yw hyn yn digwydd yn awtomatig, yn cael ei weithredu;

(b) bod parhad gwasanaeth unrhyw Staff sy'n Trosglwyddo yn cael ei gydnabod;

(c) bod telerau ac amodau Staff sy'n Trosglwyddo a oedd mewn grym yn union cyn y Trosglwyddo yn cael eu cadw ar ôl Trosglwyddo;

(d) Mae darpariaeth pensiwn Staff sy'n Trosglwyddo yn cael ei diogelu drwy gydol y contract ac yn amodol ar y Darpariaethau Pensiwn perthnasol maent naill ai:

(i) Yn cadw eu haelodaeth o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol lle mae'r Contractwr wedi ymrwymo i Gytundeb Derbyn, neu y bydd yn ymrwymo i gytundeb o'r fath;

(ii) Yn cadw eu haelodaeth o Gynllun Gwaddol perthnasol lle mae'r Contractwr wedi ymrwymo i Gytundeb Cyfranogiad, neu y bydd yn ymrwymo i Gytundeb Cyfranogiad; neu

(iii) Yn cael cynnig aelodaeth, neu gymhwystra i fod yn aelod, o gynllun pensiwn ar delerau sydd yr un fath neu'n

cymharu'n fras â'r trefniadau pensiwn a oedd ganddynt cyn Trosglwyddo, neu'n well na hwy.

3.4 Ni fydd dim yn y cymal 3 hwn yn atal Staff sy'n Trosglwyddo rhag gwrthwynebu trosglwyddo eu cyflogaeth.

## 4. Staff Eraill

4.1 Bydd y Contractwr (a bydd yn sicrhau y bydd unrhyw Is-gontractwr) yn sicrhau y bydd Staff Eraill yn cael eu cyflogi ar delerau ac amodau cyflogaeth nad ydynt yn llai ffafriol na thelerau ac amodau Staff sy'n Trosglwyddo.

4.2 Bydd y Contractwr (a bydd yn sicrhau y bydd unrhyw Is-gontractwr) yn sicrhau bod trefniadau pensiwn Staff Eraill yn darparu ar gyfer naill ai:

(a) Aelodaeth o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol lle mae'r Contractwr wedi ymrwymo i Gytundeb Derbyn; neu

(b) Aelodaeth o dan y Cynllun Gwaddol perthnasol ac eithrio'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol lle mae'r Contractwr wedi ymrwymo i Gytundeb Cyfranogiad; neu

(c) Aelodaeth o gynllun pensiwn sy'n bodloni'r safonau cofrestru awtomatig o dan Ddeddf Pensiynau 2008 (p'un a yw'n ofynnol i'r Contractwr gynnig aelodaeth ai peidio).

4.3 Bydd y Contractwr (a bydd yn sicrhau y bydd unrhyw Is-gontractwr) yn ymgynghori ag unrhyw Undeb Llafur cydnabyddedig mewn perthynas â'r telerau ac amodau sydd i'w cynnig i Staff Eraill.

## 5. Is-gontractio

5.1 Mae angen caniatâd yr Awdurdod Contractio cyn y gellir ymrwymo i unrhyw is-gontract ar gyfer darparu'r gwasanaethau (neu ran o'r gwasanaethau) neu ymgymryd â'r swyddogaethau (neu ran o'r swyddogaethau) a drosglwyddir o dan y contract hwn. Dylai unrhyw ganiatâd ar gyfer is-gontract a roddir gan yr Awdurdod Contractio fod yn amodol ar gynnwys y Cymalau Gweithlu Cyhoeddus Cymdeithasol (neu gymalau sydd â'r un effaith neu'r un effaith yn sylweddol) mewn unrhyw is-gontract.

5.2 Os yw'r Contractwr yn bwriadu ymrwymo i is-gontract nad yw'n cynnwys y Cymalau Gweithlu Cyhoeddus Cymdeithasol (neu gymalau sydd â'r un effaith neu'r un effaith yn sylweddol), rhaid iddo gynnig hyn i'r Awdurdod Contractio cyn ymrwymo i'r is-gontract.

5.3 Bydd y Contractwr yn sicrhau bod modd gorfodi'r rhwymedigaethau o dan y Cymalau Gweithlu Cyhoeddus Cymdeithasol sydd wedi'u cynnwys mewn unrhyw is-gontract yn erbyn unrhyw Is-gontractwr yn uniongyrchol gan yr Awdurdod Contractio.

5.4 Bydd y Contractwr yn sicrhau bod y rhwymedigaethau o dan y Cymalau Gweithlu Cyhoeddus Cymdeithasol yn cael eu cyflawni gan unrhyw Is-gontractwr, a bydd yn sicrhau bod mecanweithiau digonol ar waith i fonitro cydymffurfiad unrhyw Is-gontractwr.

## 6. Monitro

6.1 Bydd y Contractwr (a bydd yn sicrhau y bydd unrhyw Is-gontractwr) yn unol â'i rwymedigaethau o dan God y Gweithlu yn darparu gwybodaeth gywir a chyflawn [yn flynyddol ar ben-blwydd y Contract/o fewn 10 diwrnod i gais gan yr Awdurdod Contractio] yn unol â chais yr Awdurdod Contractio, a hynny ar ffurf ddienw mewn perthynas â'r canlynol:

(a) Telerau ac amodau Staff sy'n Trosglwyddo;

(b) Telerau ac amodau Staff Eraill;

(c) Manylion trefniadau pensiwn Staff sy'n Trosglwyddo; a

(d) Manylion trefniadau pensiwn Staff Eraill.